Beth os oes gennyf broblem feddygol?

Os oes gennych broblem feddygol bydd angen i chi lenwi holiadur meddygol. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut y mae eich cartref presennol yn gwaethygu eich problem feddygol. Bydd Panel Gosodiadau Valleys Home Choice yn asesu'r wybodaeth a roddwch i ni ac yn penderfynu a ddylai eich cais gael ei drin fel blaenoriaeth. Rhoddir blaenoriaeth feddygol dim ond os yw eich cyflwr meddygol yn cael ei waethygu gan yr amgylchiadau yn eich cartref presennol.

Beth os yw fy eiddo mewn cyflwr gwael?

Pan fyddwch yn gwneud cais i fod yn aelod o Valleys Home Choice gofynnir i chi am gyflwr eich cartref presennol. Os yw eich cartref mewn cyflwr gwael gallwch ofyn i Swyddog o Adran Iechyd yr Amgylchedd archwilio eich cartref. Rhoddir blaenoriaeth dim ond os tybir bod eich cartref yn anaddas gan Adran Iechyd yr Amgylchedd.

Beth yw cerdyn blaenoriaeth?

Gellir dyroddi cerdyn blaenoriaeth yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- Rydych wedi eich derbyn fel rhywun sy'n statudol ddigartref gan y Cyngor.
- Mae gennych fwy nag un angen blaenoriaeth aur.

Cyhoeddir cerdyn blaenoriaeth am 26 wythnos ac yn ystod yr amser hwnnw bydd angen i chi wneud cais am eiddo addas. Ar ddiwedd y 26 wythnos bydd eich amgylchiadau yn cael eu hadolygu gan Banel Gosodiadau Valleys Home Choice i benderfynu a ydych yn dal i fod angen cerdyn blaenoriaeth.

Beth os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Os bydd eich amgylchiadau yn newid am ba bynnag reswm mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym ar unwaith drwy lenwi ffurflen newid amgylchiadau. Gellir casglu'r rhain o'n swyddfa neu gallwn anfon un atoch. Bydd eich cais yn cael ei ailasesu ac fe'ch hysbysir am unrhyw newid yn eich bandio.

Os byddwch angen unrhyw wybodaeth bellach am y cynllun hwn, cysylltwch â thîm Valleys Home Choice:

Ffôn **0845 6026125**
E-bost **valleyshomechoice@newydd.co.uk**

Valleys Home Choice, Cymdeithas Tai Newydd,
Trem y Cwm, Masefield Way, Rhydyfelin, Pontypridd, CF37 5HQ

Cyfeiriad gwefan: www.valleyshomechoice.com

Newydd

Valleys Home Choice

Sut i ddod o hyd i'ch cartref

Newydd

Cyflwyniad i Valleys Home Choice

Mae Valleys Home Choice yn gynllun newydd a gyflwynwyd gan Gymdeithas Tai Newydd (1974) Cyf. sy'n caniatáu i'r rhai sy'n gwneud cais ddewis y cartref y dymunant fyw ynddo yn hytrach nag aros i gartref gael ei gyfateb â nhw. Mae ein cofrestr ar agor i unrhyw un dros 16 mlwydd oed ac mae cofrestru yn hawdd dim ond i chi ddilyn y saith cam isod:

Cam 1 **Cofrestru**

Llenwch ffurflen aelodaeth Valleys Home Choice ac unrhyw wybodaeth gefnogol a'i hanfon at dîm Valleys Home Choice.

Cam 2 **Cadarnhau Aelodaeth**

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn cadarnhau'r band yr ydych ynddo, eich dyddiad cofrestru a'ch rhif aelodaeth unigryw.

Cam 3 **Dewis eich Cartref**

Bob pythefnos anfonir neu e-bostir hysbyseb atoch. Dangosir hysbysebion hefyd yn Swyddfa Newydd y Cymoedd ac yn y Swyddfa Cyngor am Dai ym Mhontypridd. Byddwch hefyd yn gallu gweld yr eiddo sydd ar gael yn www.valleyshomechoice.com

Cam 4 **Gwneud cais am eich Cartref**

Os gwelwch gartref a hoffwch a'ch bod yn bodloni'r gofynion a restrwyd yn yr hysbyseb gallwch wneud cais am yr eiddo drwy:

Ffonio llinell gymorth Valleys Home Choice ar 0845 6026125.

Galw yn ein swyddfa a llenwi taflen gwneud cais.

Gwneud cais ar-lein ar wefan Valleys Home Choice yn **www.valleyshomechoice.com**

Postio eich cais i Valleys Home Choice yn:
Cymdeithas Tai Newydd,
Trem y Cwm, Masefield Way,
Rhydyfelin, Pontypridd CF37 5HQ

Cofiwch – i wneud cais am eiddo rhaid i chi fod yn aelod o Valleys Home Choice!

Cam 5 **Dewis**

Bydd yr eiddo yn cael ei ddyrannu i'r person yn y band uchaf. Os bydd mwy nag un person yn yr un band yn gwneud cais am eiddo yna dewisir yr un gyda'r dyddiad cofrestru hynaf.

Cam 6 **Cynnig**

Os dewisir chi ar gyfer eiddo, bydd Swyddog Tai yn ymweld â chi i gadarnhau bod y manylion ar eich ffurflen aelodaeth yn gywir cyn y gwneir cynnig ffurfiol. Gelwir hwn yn ymweliad dilysu.

Cam 7 **Adborth**

Fel rhan o'r hysbyseb pythefnosol byddwn yn rhoi adborth am nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a band a dyddiad cofrestru'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer pob eiddo a hysbysebir.

Pa fath o gartref y gallaf wneud cais amdano?

Maint y teulu	Stiwdio	Byngalo	Fflat 1 yst wely	Fflat 2 yst wely neu Maisonette	Tŷ 2 yst wely	Fflat 3 yst wely neu Maisonette	Tŷ 3 yst wely	Tŷ 4 yst wely
Person Sengl	Ie		Ie					
Person Sengl 55+	Ie	Ie	Ie					
Cwpl		Ie	Ie					
Cwpl 55+		Ie	Ie					
Rhiant neu Gwpl + 1 Plentyn				Ie	Ie			
Rhiant neu Gwpl + 2 Plentyn				Ie	Ie	Ie	Ie	
Rhiant neu Gwpl + 3 Phlentyn						Ie	Ie	
Rhiant neu Gwpl + 4 Phlentyn							Ie	Ie

Seilir y math o gartref y gallwch wneud cais amdano ar nifer y bobl a fydd yn byw gyda chi.

Noder: Gall pob aelod wneud cais am un lle i wely yn fwy nag y mae arnynt ei angen mewn gwirionedd ond rhoddir blaenoriaeth bob amser i aelodau gydag angen gwirioneddol am y lle gwely ychwanegol hwnnw.

Band Efydd
Pob Grŵp Arall

Rydych yn denant Cyngor neu gymdeithas tai ac mae gennych lety digon mawr ar gyfer eich anghenion.

Rydych yn berchennog-breswyliwr neu yn byw mewn cartref sy'n cael ei rentu'n breifat sydd â'r cyfleusterau iawn ac sydd yn ddigon mawr i fodloni eich anghenion.

Holl ymgeiswyr eraill nad sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw un o'r Grwpiau Band Blaenoriaeth.

Band Arian
Grwpiau Tai Angen Brys

Rydych yn aros gyda ffrindiau a theulu ac yn rhannu cyfleusterau yn eich cartref presennol.

Nid ydych yn byw gyda'ch teulu (gŵr/gwraig/ cymar/plant) ac rydych am iddynt fyw gyda chi.

Mae gennych blentyn o dan 10 oed ac rydych yn byw mewn fflat uwch na'r llawr gwaelod (heb lifft).

Mae eich perthynas gyda'ch gŵr/gwraig/cymar wedi chwalu ac rydych am fyw ar wahân.

Rydych o leiaf un ystafell wely yn brin eich llety presennol.

Rydych yn weithiwr allweddol ac wedi cael cynnig swydd llawn amser yn Rhondda Cynon Taf ac rydych angen llety o dan gynllun cydnabyddedig i weithwyr allweddol.

Gold Band
Priority Housing Groups

Fe'ch derbyniwyd fel rhywun Digartref Blaenoriaeth gan y Cyngor ac rydych wedi cael Cerdyn Blaenoriaeth.

Mae'ch llety presennol yn statudol wedi ei orboblogi neu rydych yn byw mewn llety a ddisgrifiwyd yn anaddas i bobl fyw ynddo.

Rydych wedi eich asesu gan banel Gosodiadau Valleys Home Choice ac wedi derbyn blaenoriaeth feddygol.

Rydych yn denant i Newydd ac yn tan-feddiannu eich cartref presennol.

Mae gennych yr hawl i olynu i denantiaeth Newydd yn dilyn marwolaeth tenant presennol, ond mae gofyn i chi symud i eiddo mwy addas.

Rydych yn byw mewn prosiect tai gwarchod ac yn barod i symud ymlaen i lety annibynnol. (Bydd angen prawf oddi wrth y darparwr cymorth ar gyfer hyn).

Rydych yn cymryd drosodd drefniadau gofal plant ar gyfer plentyn/plant sydd yng ngofal CBS Rhondda Cynon Taf ac nid yw eich llety presennol yn addas ar gyfer y cartref sydd newydd ei ffurfio.

Rydych yn denant i'r Gymdeithas ar hyn o bryd ac mae arnoch angen trosglwyddo o dan raglen ail-ddynodi neu adfywio sydd wedi ei chymeradwyo.

Rhoddwyd blaenoriaeth i chi ar gyfer cael eich ailgartrefu gan Banel Gosodiadau Valleys Home Choice am resymau yn ymwneud â lles neu am resymau cymdeithasol.

Ym mha fand y byddaf?

Rhoddir eich band i chi yn seiliedig ar eich amgylchiadau ac fe'u rhestrir yn y tabl uchod. Mae Aur ar gyfer Grwpiau Tai Blaenoriaeth, Arian ar gyfer Grwpiau Brys ac Efydd ar gyfer Pob Grŵp Arall. Os bydd eich amgylchiadau yn newid mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu ar unwaith oherwydd gall eich band newid. Os bydd mwy nag un aelod yn gwneud cais am eiddo yna bydd yr aelod gyda'r dyddiad cofrestru hynaf yn cael yr eiddo. Os na dderbynnir unrhyw geisiadau oddi wrth aelodau'r band Aur yna ystyrir y rhai hynny yn y band Arian, ac fe'u dilynir gan yr Efydd.